



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 Rhif 1261 (Cy.156)

2012 No. 1261 (W.156)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

Rheoliadau Pwyllgor
Cydwasaethau Ymddiriedolaeth
Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Felindre (Cymru) 2012

The Velindre National Health
Service Trust Shared Services
Committee (Wales) Regulations
2012

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydliad, swyddogaethau, cyfansoddiad ac aelodaeth o Bwyllgor Cydwasaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre ("y pwyllgor") gan gynnwys ei weithdrefnau a'i drefniadau gweinyddol.

These Regulations make provision for the establishment, functions, constitution and membership of the Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee ("the committee") including its procedures and administrative arrangements.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu'r pwyllgor ac arfer swyddogaethau gan y pwyllgor.

Part 2 of these Regulations makes provision for the establishment of the committee and exercise of functions by the committee.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer —

Part 3 of these Regulations makes provision for —

- (a) cyfansoddiad ac aelodaeth y pwyllgor (rheoliad 5);
- (b) penodi cadeirydd ac is-gadeirydd i'r pwyllgor (rheoliad 6);
- (c) gofynion cymhwystra i aelodau o'r cyd-bwyllgor (rheoliad 7 a'r Atodlen); a
- (d) dal swyddi, terfynu penodiadau ac atal y cadeirydd a'r is-gadeirydd o'r pwyllgor (rheoliadau 8 i 10).

- (a) the composition and membership of the committee (regulation 5);
- (b) the appointment of the chair and vice-chair to the committee (regulation 6);
- (c) eligibility requirements for members of the joint committee (regulation 7 and the Schedule); and
- (d) tenure of office, termination of appointment and suspension of the chair and vice chair of the committee (regulations 8 to 10).

Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â chyfarfodydd a thrafodion y pwyllgor gan gynnwys pwerau'r is-gadeirydd (rheoliadau 11 a 12).

Part 4 contains provisions in relation to the meetings and proceedings of the committee including the powers of the vice- chair (regulations 11 and 12).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of regulatory impact assessments was considered in relation to these Regulations. As a result,

effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan yr Adran Gyllid, Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Finance Department, Department of Health, Social Services and Children, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2012 Rhif 1261 (Cy.156)

2012 No. 1261 (W.156)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

Rheoliadau Pwyllgor
Cydwasaethau Ymddiriedolaeth
Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Felindre (Cymru) 2012

The Velindre National Health
Service Trust Shared Services
Committee (Wales) Regulations
2012

Gwnaed 8 Mai 2012
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 11 Mai 2012
Yn dod i rym 1 Mehefin 2012

Made 8 May 2012
*Laid before the National
Assembly for Wales* 11 May 2012
Coming into force 1 June 2012

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 19(1), 203(9) a (10) a pharagraff 4(1)(f) o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by sections 19(1), 203(9) and (10) and paragraph 4(1)(f) of Schedule 3 to the National Health Service (Wales) Act 2006(1) make the following Regulations:

RHAN 1

PART 1

Cyflwyniad

Introduction

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pwyllgor Cydwasaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 1 Mehefin 2012.

Title and commencement

1. The title of these Regulations is the Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee (Wales) Regulations 2012 and they come into force on 1 June 2012.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aelod" ("*member*") yw aelod o'r pwyllgor fel a nodir yn rheoliad 5;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health*

Interpretation

2. In these Regulations—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the National Health Service (Wales) Act 2006;

Board") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11(2) o'r Ddeddf(1);

ystyr "*corff gwasanaeth iechyd*" ("*health service body*") yw Awdurdod Iechyd Arbennig; Awdurdod Iechyd Strategol; Bwrdd Iechyd Lleol; Ymddiriedolaeth GIG; Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol;

ystyr "*cydwasaethau*" ("*shared services*") yw gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol a ddarperir i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru;

ystyr "*cyfarwyddwr gweithredol*" ("*executive director*") yw, yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 3 i'r Ddeddf, cyfarwyddwr sy'n gyflogai i'r Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

ystyr "*cynrychiolydd enwebedig*" ("*nominated representative*") yw, mewn perthynas â phrif swyddog Bwrdd Iechyd Lleol, swyddog-aelod o'i Fwrdd Iechyd Lleol ac, mewn perthynas â phrif swyddog Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol, cyfarwyddwr gweithredol o'i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

ystyr "*y Ddeddf*" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "*prif swyddogion*" ("*chief officers*") yw prif swyddog pob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

ystyr "*y pwyllgor*" ("*the committee*") yw Pwyllgor Cydwasaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre a sefydlwyd gan y Rheoliadau hyn;

ystyr "*swyddog-aelod*" ("*officer member*") yw aelod o Fwrdd Iechyd Lleol sy'n dal unrhyw swydd a nodir yn rheoliad 3(2) o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009;

ystyr "*Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol*" ("*National Health Service Trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd yn unol ag adran 18(1) o'r Ddeddf(2);

"chief officers" ("*prif swyddogion*") means the chief officer of each Local Health Board and National Health Service Trust;

"executive director" ("*cyfarwyddwr gweithredol*") means, in accordance with paragraph 3 of Schedule 3 to the Act, a director who is an employee of the National Health Service Trust;

"health service body" ("*corff gwasanaeth iechyd*") means a Special Health Authority; a Strategic Health Authority; a Local Health Board; an NHS Trust; an NHS Foundation Trust or a Primary Care Trust;

"Local Health Board" ("*Bwrdd Iechyd Lleol*") means a Local Health Board established in accordance with section 11(2) of the Act(1);

"member" ("*aelod*") means a member of the committee as set out in regulation 5;

"National Health Service Trust" ("*Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol*") means a National Health Service Trust established in accordance with section 18(1) of the Act(2);

"nominated representative" ("*cynrychiolydd enwebedig*") means, in relation to a chief officer of a Local Health Board, an officer member of his or her Local Health Board and, in relation to a chief officer of a National Health Service Trust, an executive director of his or her National Health Service Trust;

"officer member" ("*swyddog-aelod*") means a member of a Local Health Board that holds any office set out in regulation 3(2) of the Local Health Boards (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2009;

"shared services" ("*cydwasaethau*") means administrative, professional and technical services provided to the health service in Wales;

"the committee" ("*y pwyllgor*") means the Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee established by these Regulations;

(1) Sefydlwyd Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/148 (Cy.18)). Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778 (Cy.66)).

(2) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn unol â phwerau yn adran 5(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 (p. 19). Yn sgil cydgrynhoi'r awdurdod galluogi, mae eu Gorchymynion Sefydlu bellach yn cael effaith fel petaent wedi eu gwneud o dan adran 18 o'r Ddeddf. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol ag adran 18(1) o'r Ddeddf.

(1) Powys Teaching Local Health Board was established under the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/148 (W.18)). Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, Aneurin Bevan Local Health Board, Betsi Cadwaladr University Local Health Board, Cardiff and Vale University Local Health Board, Cwm Taf Local Health Board and Hywel Dda Local Health Board were established under the Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009 (S.I. 2009/778 (W.66)).

(2) Velindre National Health Service Trust and the Welsh Ambulance Service National Health Service Trust were established pursuant to powers contained in section 5(1) of the National Health Service and Community Care Act 1990 (c. 19). Following consolidation of the enabling authority, their Establishment Orders now have effect as if made under section 18 of the Act. Public Health Wales National Health Service Trust was established pursuant to section 18(1) of the Act.

ystyr "Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre" ("*Velindre National Health Service Trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre a sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993(1).

"Velindre National Health Service Trust" ("*Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre*") means Velindre National Health Service Trust established by the Velindre National Health Service Trust (Establishment) Order 1993(1).

RHAN 2

Sefydlu'r pwyllgor a'i swyddogaethau

Sefydlu'r pwyllgor

3. Bydd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre yn sefydlu'r pwyllgor.

Swyddogaethau'r pwyllgor

4. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am arfer swyddogaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre mewn perthynas â chydwasanaethau, gan gynnwys pennu polisi a strategaeth a rheoli a darparu cydwasanaethau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

RHAN 3

Aelodaeth y pwyllgor

Aelodaeth y pwyllgor

5.—(1) Dyma aelodau'r pwyllgor—

- (a) cadeirydd;
- (b) prif swyddogion neu eu cynrychiolwyr enwebedig; a
- (c) y person sydd wedi ei ddynodi'n swyddog atebol am gydwasanaethau.

(2) At ddibenion rheoliad 5(1)(c), y person sydd wedi ei ddynodi'n swyddog atebol am gydwasanaethau yw'r person sydd wedi ei ddynodi'n swyddog atebol am gydwasanaethau gan y person sydd wedi ei ddynodi'n swyddog cyfrifyddu ychwanegol, ac sy'n gyfrifol am y GIG yng Nghymru, yn unol ag adran 133(2) o Ddeddf

PART 2

Establishment and functions of the committee

Establishment of the committee

3. Velindre National Health Service Trust will establish the committee.

Functions of the committee

4. The committee is responsible for exercising Velindre National Health Service Trust's functions in relation to shared services, including the setting of policy and strategy and the management and provision of shared services to Local Health Boards and National Health Service Trusts.

PART 3

Membership of the committee

Membership of the committee

5.—(1) The members of the committee consist of—

- (a) a chair;
- (b) the chief officers or their nominated representatives; and
- (c) the person who has been designated as the accountable officer for shared services.

(2) For the purposes of regulation 5(1)(c), the person who is designated as the accountable officer for shared services, means the person who has been designated as accountable officer for shared services by the person who has been designated as an additional accounting officer, with responsibility for the NHS in Wales, in

(1) O.S. 1993/2838, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/2059 (Cy.178) ac O.S. 2012/1262 (Cy.157).

(1) S.I. 1993/2838, as amended by S.I. 2009/2059 (W.178) and S.I. 2012/1262 (W.157).

Llywodraeth Cymru 2006(1).

(3) Pan fo prif swyddog yn bwriadu enwebu cynrychiolydd at ddibenion rheoliad 5(1)(b), rhaid i'r enwebiad fod yn ysgrifenedig ac wedi ei gyfeirio at gadeirydd y pwyllgor a rhaid iddo bennu p'un a yw'r enwebiad am gyfnod penodol o amser ai peidio.

Penodi'r cadeirydd a'r is-gadeirydd

6.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), penodir cadeirydd y pwyllgor gan y pwyllgor.

(2) Penodir cadeirydd cyntaf y pwyllgor gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre am gyfnod o chwe mis.

(3) Rhaid i'r pwyllgor benodi is-gadeirydd i'r pwyllgor o blith y prif swyddogion neu eu cynrychiolwyr enwebedig.

(4) Pan fo'r pwyllgor yn penodi cadeirydd ac is-gadeirydd i'r pwyllgor yn unol â pharagraffau (1) a (3), rhaid i'r penodiadau fod yn ddarostyngedig i reolau sefydlog sy'n ymwneud â'r pwyllgor ac, mewn perthynas â phenodiadau a wneir yn unol â pharagraff (1), rhaid i'r pwyllgor fodloni ei hun bod gan y person a benodir y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau'r cadeirydd.

(5) Pan fo Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre yn penodi'r cadeirydd yn unol â pharagraff (2), rhaid i'r penodiad fod yn ddarostyngedig i reolau sefydlog Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre.

Gofynion cymhwysra i aelodau'r pwyllgor

7.—(1) Rhaid i bob aelod gyflawni'r gofynion cymhwysra yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn a rhaid iddo barhau i gyflawni'r gofynion tra bo'r aelod hwnnw yn dal ei swydd.

(2) Ni chaiff prif swyddogion ond dal swydd ar y pwyllgor ar yr amod eu bod yn parhau i ddal eu swyddi fel prif swyddog i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu Fwrdd Iechyd Lleol.

(3) Ni chaiff cynrychiolydd enwebedig prif swyddog ond dal swydd ar y pwyllgor ar yr amod ei fod yn parhau i ddal ei swydd, fel y bo'n briodol, fel swyddog-

accordance with section 133(2) of the Government of Wales Act 2006(1).

(3) Where a chief officer intends to nominate a representative for the purposes of regulation 5(1)(b), the nomination must be in writing addressed to the chair of the committee, and must specify whether the nomination is for a specific length of time.

Appointment of the chair and vice-chair

6.—(1) Subject to paragraph (2) the chair of the committee is appointed by the committee.

(2) The first chair of the committee is appointed by Velindre National Health Service Trust for a period of six months.

(3) The committee must appoint a vice chair of the committee from amongst the chief officers or their nominated representatives.

(4) Where the committee appoints the chair and vice chair of the committee in accordance with paragraphs (1) and (3), the appointments must be subject to standing orders relating to the committee and, in relation to appointments made in accordance with paragraph (1), the committee must satisfy itself that the person appointed has the necessary skills and experience to perform the duties of the chair.

(5) Where Velindre National Health Service Trust appoints the chair in accordance with paragraph (2), the appointment must be subject to Velindre National Health Service Trust's standing orders.

Eligibility requirements for members of the committee

7.—(1) All members must fulfil the requirements for eligibility in the Schedule to these Regulations and must continue to fulfil the requirements while that member holds office.

(2) Chief officers may only hold office on the committee provided he or she continues to hold office as a chief officer of a National Health Service Trust or Local Health Board.

(3) A nominated representative of a chief officer may only hold office on the committee provided he or she continues to hold office, as appropriate, as an officer

(1) 2006 p.32. Yn unol ag adran 129(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yw'r prif swyddog cyfrifyddu dros Weinidogion Cymru. Yn unol ag adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff yr Ysgrifennydd Parhaol ddynodi aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn swyddogion cyfrifyddu ychwanegol. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ei ddynodi'n swyddog cyfrifyddu ychwanegol sy'n gyfrifol am y cyllidebau y mae ganddo gyfrifoldeb gweinyddol amdanynt. Caiff swyddogion cyfrifyddu ychwanegol benodi swyddogion atebol mewn cyrff cyhoeddus penodol, sy'n cynnwys Ymddiriedolaethau GIG. Nodir cyfrifoldebau swyddogion atebol mewn Memorandwm i Swyddogion Atebol.

(1) 2006 c.32. In accordance with section 129(6) of the Government of Wales Act 2006, the Permanent Secretary of the Welsh Government is the principal accounting officer for the Welsh Ministers. In accordance with section 133(2) of the Government of Wales Act 2006, the Permanent Secretary may designate other members of staff of the Welsh Government as additional accounting officers. The Director General for Health and Social Services has been designated as an additional accounting officer responsible for the budgets for which he has administrative responsibility. Additional accounting officers may appoint accountable officers in certain public bodies, which include NHS Trusts. Accountable officers have their responsibilities set out in an Accountable Officer Memorandum.

aelod Bwrdd Iechyd Lleol y prif swyddog neu fel cyfarwyddwr gweithredol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol y prif swyddog.

(4) Ni chaiff unrhyw berson a benodwyd yn unol â rheoliad 6(3) i fod yn is-gadeirydd ond dal swydd is-gadeirydd i'r pwyllgor ar yr amod ei fod yn parhau i ddal ei swydd, fel y bo'n briodol, fel prif swyddog neu fel swyddog-aelod o Fwrdd Iechyd Lleol y prif swyddog neu fel cyfarwyddwr gweithredol o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol y prif swyddog.

Dal swydd cadeirydd ac is-gadeirydd

8.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw berson a benodir yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd i'r pwyllgor.

(2) Yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn, mae cadeirydd neu is-gadeirydd yn dal ac yn gadael ei swydd yn unol â thelerau penodiad y person hwnnw.

(3) Caniateir penodi cadeirydd neu is-gadeirydd am gyfnod nad yw'n hwy na phedair blynedd.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) caiff cadeirydd neu is-gadeirydd pan ddaw ei dymor yn ei swydd i ben gael ei ailethol yn unol â rheoliad 6(1) neu 6(3) yn y drefn honno.

(5) Ni chaiff person ddal swydd fel cadeirydd nac is-gadeirydd i'r pwyllgor am gyfanswm o fwy nag wyth mlynedd, ac ni chaiff person gael ei benodi am gyfnodau olynol fel is-gadeirydd neu, yn ddarostyngedig i baragraff (6), fel cadeirydd.

(6) Caiff cadeirydd cyntaf y pwyllgor a benodwyd gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre, yn unol â rheoliad 6(2), pan ddaw tymor ei benodiad i ben, gael ei benodi i swydd cadeirydd gan y pwyllgor os yw'n llwyddiannus yn y broses benodi a redir gan y pwyllgor yn unol â'i reolau sefydlog.

(7) Mae cyfeiriadau at ddal swydd is-gadeirydd yn gyfeiriadau at ei benodiad yn is-gadeirydd ac nid at ddal swydd fel aelod o'r pwyllgor.

Terfynu penodiad cadeirydd neu is-gadeirydd

9.—(1) Caiff y pwyllgor ddiswyddo cadeirydd neu is-gadeirydd os yw'n penderfynu—

- (a) nad yw er lles y pwyllgor; neu
- (b) nad yw'n ffafriol o ran rheoli da ar y pwyllgor,

i'r cadeirydd hwnnw neu'r is-gadeirydd hwnnw barhau i ddal ei swydd.

(2) Os daw i sylw'r pwyllgor bod cadeirydd neu is-gadeirydd a benodwyd wedi dod yn anghymwys o dan

member of the chief officer's Local Health Board or an executive director of the chief officer's National Health Service Trust.

(4) Any person appointed pursuant to regulation 6(3) to be a vice chair may only hold the office of vice chair on the committee provided that person continues to hold office, as appropriate, as a chief officer or as an officer member of the chief officer's Local Health Board or an executive director of the chief officer's National Health Service Trust.

Tenure of office of chair and vice chair

8.—(1) This regulation applies to any person who is appointed as chair or vice chair of the committee.

(2) Subject to these Regulations, a chair or vice chair holds and vacates office in accordance with the terms of that person's appointment.

(3) A chair or vice chair may be appointed for a period of no longer than four years.

(4) Subject to paragraph (5) a chair or vice chair may on the expiration of his or her term of office be re-appointed in accordance with regulation 6(1) or 6(3) respectively.

(5) A person may not hold office as a chair or vice chair for the committee for a total period of more than eight years, and a person may not have consecutive appointments as a vice chair or, subject to paragraph (6), a chair.

(6) The first chair of the committee appointed by Velindre National Health Service Trust in accordance with regulation 6(2), may, when his or her term of appointment comes to an end, be appointed to the position of chair by the committee if he or she is successful in the appointments process run by the committee in accordance with its standing orders.

(7) References to the tenure of office of the vice chair are to his or her appointment as vice chair and not to his or her tenure of office as a member of the committee.

Termination of appointment of chair or vice chair

9.—(1) The committee may, remove a chair or vice chair from office if it determines that—

- (a) it is not in the interests of the committee; or
- (b) it is not conducive to the good management of the committee,

for that chair or vice chair to continue to hold office.

(2) If it comes to the notice of the committee that a chair or vice chair appointed has become ineligible

yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn, rhaid i'r pwyllgor ddiswyddo'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd.

(3) Rhaid i gadeirydd neu is-gadeirydd a benodwyd hysbysu'r pwyllgor ar unwaith os yw'r cadeirydd hwnnw neu'r is-gadeirydd hwnnw yn dod yn anghymwys o dan yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(4) Os yw cadeirydd neu is-gadeirydd wedi methu â mynd i unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor am gyfnod o chwe mis neu ragor, caiff y pwyllgor ddiswyddo'r cadeirydd hwnnw neu'r is-gadeirydd hwnnw oni bai ei bod yn fodlon—

- (a) bod achos rhesymol dros yr absenoldeb; a
- (b) y bydd y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn gallu mynd i gyfarfodydd y pwyllgor am gyfnod sy'n rhesymol ym marn y pwyllgor.

(5) Caiff cadeirydd neu is-gadeirydd ymddiswyddo drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r pwyllgor ond yn ddarostyngedig i delerau penodi'r cadeirydd hwnnw neu'r is-gadeirydd hwnnw.

(6) Mae cyfeiriad yn y rheoliad hwn at ddiswyddo is-gadeirydd neu is-gadeirydd yn ymddiswyddo yn gyfeiriad at ei ddiswyddo o'i benodiad yn is-gadeirydd neu ato'n ymddiswyddo o'i benodiad yn is-gadeirydd, fel y bo'n briodol, ac nid at ymddiswyddo gan aelod neu ddiswyddo aelod a benodwyd yn is-gadeirydd o'i swydd ar y pwyllgor.

Atal y cadeirydd neu'r is-gadeirydd

10.—(1) Cyn gwneud penderfyniad i ddiswyddo cadeirydd neu is-gadeirydd o dan reoliad 9, caiff y pwyllgor atal y cadeirydd neu'r is-gadeirydd rhag dal y swydd honno am gyfnod sy'n rhesymol ym marn y pwyllgor.

(2) Pan fo cadeirydd neu is-gadeirydd yn cael ei atal yn unol â pharagraff (1), rhaid i'r pwyllgor hysbysu'r cadeirydd hwnnw neu'r is-gadeirydd hwnnw, pob aelod o'r pwyllgor ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig gan ddatgan y rhesymau dros ei atal.

(3) Ni chaiff cadeirydd neu is-gadeirydd sy'n cael ei atal o'i swydd o dan baragraff (1) gyflawni swyddogaethau'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd.

(4) Mae cyfeiriad yn y rheoliad hwn at atal is-gadeirydd yn gyfeiriad at ei atal o'i benodiad yn is-gadeirydd ac nid at atal yr aelod a benodwyd yn is-gadeirydd o'i swydd ar y pwyllgor.

under the Schedule to these Regulations, the committee must remove that chair or vice chair from office.

(3) A chair or vice chair appointed must immediately notify the committee if that chair or vice chair becomes ineligible under the Schedule to these Regulations.

(4) If a chair or vice chair has failed to attend any meeting of the committee for a period of six months or more, the committee may remove that chair or vice chair from office unless it is satisfied that—

- (a) the absence was due to a reasonable cause; and
- (b) the chair or vice chair will be able to attend such meetings within such period as the committee considers reasonable.

(5) A chair or vice chair may at any time resign his or her office by notice in writing to the committee but subject to the terms of that chair or vice chair's appointment.

(6) Reference in this regulation to removal of a vice chair or the resignation of a vice chair from office is to the removal of the appointment as vice chair or resignation from the appointment as vice chair, as appropriate, and not to the removal or resignation of the member who has been appointed as vice chair from office on the committee.

Suspension of chair or vice chair

10.—(1) Before making a decision to remove a chair or vice chair from office under regulation 9, the committee may suspend the tenure of office of that chair or vice chair for such period as it considers reasonable.

(2) Where a chair or vice chair is suspended in accordance with paragraph (1), the committee must immediately notify that chair or vice chair, each of the committee members and Velindre National Health Service Trust in writing, stating the reasons for his or her suspension.

(3) A chair or vice chair whose tenure of office is suspended under paragraph (1) may not perform the functions of chair or vice chair.

(4) Reference in this regulation to suspension of a vice chair is to the suspension of the appointment as vice chair and not to the suspension of the member who has been appointed as vice chair from office on the committee.

RHAN 4

Cyfarfodydd a thrafodion y pwyllgor

Cyfarfodydd a thrafodion

11.—(1) Rhaid i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre gytuno ar reolau sefydlog i reoleiddio cyfarfodydd a thrafodion y pwyllgor.

(2) Rhaid i gyfarfodydd a thrafodion y pwyllgor gael eu cynnal yn unol â rheolau sefydlog sy'n ymwneud â'r pwyllgor.

Pwerau'r is-gadeirydd

12. Pan fo cadeirydd y pwyllgor—

- (a) wedi marw;
- (b) wedi peidio â dal ei swydd; neu
- (c) yn anabl i gyflawni dyletswyddau'r cadeirydd oherwydd salwch, absenoldeb neu unrhyw achos arall,

caiff yr is-gadeirydd weithredu fel cadeirydd hyd nes y caiff cadeirydd newydd ei benodi neu hyd nes bod y cadeirydd presennol yn ailafael yn nyletswyddau'r cadeirydd, yn ôl y digwydd.

PART 4

Meetings and proceedings of the committee

Meetings and proceedings

11.—(1) Velindre National Health Service Trust must agree standing orders for the regulation of the meetings and proceedings of the committee.

(2) The meetings and proceedings of the committee must be conducted in accordance with standing orders relating to the committee.

Powers of vice-chair

12. Where the chair of the committee—

- (a) has died;
- (b) has ceased to hold office; or
- (c) is unable to perform the duties of chair owing to illness, absence or any other cause,

the vice-chair may act as chair until a new chair is appointed or the existing chair resumes the duties of chair, as the case may be.

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru.

8 Mai 2012

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers.

8 May 2012

YR ATODLEN

GOFYNIION CYMHWYSTRA

Rheoliad 7(1)

Gofynion cymhwystra i aelodau

Gofynion cyffredinol

1.—(1) Mae'r Atodlen hon yn gymwys mewn perthynas â chymhwystra personau i'w penodi yn aelodau o'r pwyllgor.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4), (5), (6) ac (8), nid yw person yn gymwys i gael ei benodi'n aelod o'r pwyllgor os yw'r person hwnnw—

- (a) wedi ei gollfarnu yn ystod y pum mlynedd blaenorol yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd ac wedi cael dedfryd o garchar (p'un a yw'n ddedfryd ohiriedig ai peidio) am gyfnod o ddim llai na thri mis heb y dewis o dalu dirwy;
- (b) yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn interim neu wedi gwneud compownd neu drefniant â chredydwyd;
- (c) wedi ei ddiswyddo, heblaw oherwydd bod y swydd wedi ei dileu, o unrhyw gyflogaeth am dâl gyda chorff gwasanaeth iechyd; neu
- (d) wedi cael terfynu ei aelodaeth fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr o gorff gwasanaeth iechyd, heblaw oherwydd bod y swydd wedi ei dileu, ymddiswyddiad gwirfoddol, ad-drefnu'r corff gwasanaeth iechyd, neu oherwydd i gyfnod y swydd y penodwyd y person iddi ddod i ben.

(3) At ddibenion paragraff (2)(a), bernir mai'r dyddiad collfarnu fydd y dyddiad y mae'r cyfnod a ganiateir yn gyffredinol ar gyfer gwneud apêl neu gais ynghylch y gollfarn yn dod i ben neu, os gwnaed apêl neu gais o'r fath, y dyddiad pan benderfynir yn derfynol ar yr apêl neu'r cais neu'r dyddiad pan roddir y gorau iddynt neu os metha oherwydd na chaiff yr apêl ei herlyn neu'r cais ei erlyn.

(4) At ddibenion paragraff (2)(c), ni fernir bod person wedi bod mewn cyflogaeth am dâl yn unig oherwydd iddo ddal swydd aelod, aelod cyswllt neu gyfarwyddwr corff gwasanaeth iechyd.

(5) Pan fo person yn anghymwys oherwydd paragraff (2)(b)—

- (a) os dirymir methdaliad ar y sail na ddylai'r person fod wedi cael ei ddyfarnu'n fethdalwr neu ar y sail bod dyledion y person wedi cael eu talu'n llawn, bydd y person hwnnw'n gymwys i gael ei benodi'n aelod ar ddyddiad y dirymiad;

SCHEDULE

ELIGIBILITY REQUIREMENTS

Regulation 7(1)

Eligibility requirements for members

General requirements

1.—(1) This Schedule applies in relation to eligibility for appointment as a member of the committee.

(2) Subject to paragraphs (4), (5), (6) and (8), a person is not eligible for appointment as a member of the committee if that person—

- (a) has within the preceding five years been convicted in the United Kingdom, the Channel Islands or the Isle of Man of any offence and has received a sentence of imprisonment (whether suspended or not) for a period of not less than three months without the option of a fine;
- (b) is the subject of a bankruptcy restrictions order or an interim order or has made a composition or arrangement with creditors;
- (c) has been dismissed, other than by reason of redundancy, from any paid employment with a health service body; or
- (d) has had his or her membership as chair, member or director of a health service body terminated, other than by reason of redundancy, voluntary resignation, reorganisation of the health service body, or expiry of the period of office for which that person was appointed.

(3) For the purposes of paragraph (2)(a) the date of conviction is deemed to be the date on which the ordinary period allowed for making an appeal or application with respect to the conviction expires or, if such an appeal or application is made, the date on which the appeal or application is finally disposed of or abandoned or fails by reason of its not being prosecuted.

(4) For the purposes of paragraph (2)(c), a person is not to be treated as having been in paid employment by reason only of having held the position of member, associate member or director of a health service body.

(5) Where a person is ineligible by reason of paragraph (2)(b)—

- (a) if the bankruptcy is annulled on the ground that the person ought not to have been adjudged bankrupt or on the ground that the person's debts have been paid in full, that person becomes eligible for appointment as a member on the date of the annulment;

- (b) os caiff person ei ryddhau o fethdaliad, bydd y person hwnnw'n gymwys i gael ei benodi'n aelod ar ddyddiad y rhyddhau;
- (c) os telir dyledion person yn llawn ac yntau wedi gwneud compownd neu drefniant gyda'i gredydwy, bydd y person hwnnw'n gymwys i gael ei benodi'n aelod ar y dyddiad y talwyd y dyledion hynny'n llawn; a
- (d) os bydd person wedi gwneud compownd neu drefniant gyda'i gredydwy, bydd y person hwnnw'n gymwys i gael ei benodi'n aelod pan ddaw pum mlynedd i ben o'r dyddiad pan gyflawnwyd telerau'r weithred gompowndio neu drefniant.

(6) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), pan fo person yn anghymwys oherwydd paragraff (2)(c), caiff y person hwnnw, wedi i ddwy flynedd ar ôl dyddiad y diswyddo ddod i ben, wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru i ddileu'r anghymwysra, a chaiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo y bydd yr anghymhwysra hwnnw yn dod i ben.

(7) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwrthod cais i ddileu anghymwysra, ni chaiff y person hwnnw wneud cais pellach hyd nes i ddwy flynedd ddod i ben gan ddechrau â dyddiad y cais, a bydd y paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gais wedyn.

(8) Pan fo person yn anghymwys oherwydd paragraff (2)(d), daw'r person hwnnw yn gymwys i'w benodi yn aelod pan fydd dwy flynedd o ddyddiad terfyniad yr aelodaeth yn dod i ben neu'r cyfnod hirach y caiff y corff a derfynodd yr aelodaeth ei bennu, ond caiff Gweinidogion Cymru, pan wneir cais iddynt yn ysgrifenedig gan y person hwnnw, leihau cyfnod yr anghymwysra.

- (b) if the person is discharged from bankruptcy, that person becomes eligible for appointment as a member on the date of the discharge;
- (c) if, having made a composition or arrangement with creditors, the person's debts are paid in full, that person becomes eligible for appointment as a member on the date upon which such debts are paid in full; and
- (d) having made a composition or arrangement with creditors, that person becomes eligible for appointment as a member on the expiry of five years from the date on which the terms of the deed of composition or arrangement were fulfilled.

(6) Subject to paragraph (7), where a person is ineligible by reason of paragraph (2)(c), that person may, after the expiry of two years from the date of dismissal, apply in writing to the Welsh Ministers to remove the ineligibility, and the Welsh Ministers may direct that the ineligibility ceases.

(7) Where the Welsh Ministers refuse an application to remove an ineligibility, no further application may be made by that person until the expiry of two years beginning with the date of the application and this paragraph applies to any subsequent application.

(8) Where a person is ineligible by reason of paragraph (2)(d), that person becomes eligible for appointment as a member on the expiry of two years from the date of termination of membership or such longer period as may have been specified by the body which terminated the membership, but the Welsh Ministers may, on application being made in writing to them by that person, reduce the period of ineligibility.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 1261 (Cy.156)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

Rheoliadau Pwyllgor
Cydwasaethau Ymddiriedolaeth
Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Felindre (Cymru) 2012

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 1261 (W.156)

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

The Velindre National Health
Service Trust Shared Services
Committee (Wales) Regulations
2012

£5.75

W1298/05/12

ON

ISBN 978-0-348-10603-9



9 780348 106039